**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

22 Gorffennaf 2016

Annwyl Aelod Cynulliad

Yn dilyn y newyddion heddiw fod cwmni Fairwood Fabrications wedi dod i ben rwy'n ysgrifennu atoch i'ch sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein diwydiant dur. Mae diogelu'r miloedd o swyddi yn Tata ac o fewn cwmnïau sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi'n parhau'n flaenoriaeth hollbwysig i ni.

Rydym wedi bod yn trafod sefyllfa Fairwood Fabrications â'r cwmni ers sawl mis ac wedi trafod cymorth posibl ar eu cyfer. Cwmni teuluol yw Fairwood Fabrications ac roedd ei drosiant bron â bod yn gwbl ddibynnol ar Tata. Trwy ffrwd waith Busnes a Chadwyn Gyflenwi Tata Steel rydym wedi darparu cymorth â gwerthu a marchnata er mwyn ceisio helpu'r cwmni i ganfod cwsmeriaid newydd. Rydym hefyd wedi cynorthwyo'r cwmni i gynnal adolygiad diagnosteg annibynnol ac mae Deloitte hefyd wedi cynnal adolygiad ariannol annibynnol a manwl. Gwnaethom hefyd hwyluso cais ar garlam drwy'r rhaglen Sgiliau Hyblyg, gan ddarparu £13,125 ym mis Mawrth ar gyfer hyfforddiant y mis hwnnw. Mae Fairwood wedi hawlio £1,750 o'r cyllid hwn.

Ym mis Ebrill cafodd Fairwood ei gyfeirio at Cyllid Cymru a gwnaethant ystyried cyllid posibl drwy eu Cronfa Achub ac Ailstrwythuro. Yn anffodus nid oedd Fairwood yn teimlo ar y pryd y byddai modd iddynt fanteisio ar y cyfle hwn. Cysylltodd Fairwood â Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin, gan ofyn am £200,000 er mwyn ei alluogi i barhau i fasnachu. Yn anffodus, gan nad oedd gan y cwmni lif arian digonol a chan nad oedd modd iddo roi unrhyw sicrwydd y gallai barhau i fasnachu nid oeddem mewn sefyllfa i ddarparu'r cyllid hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi gweithwyr Fairwood Fabrications. Bydd hefyd yn parhau i wneud popeth posibl drwy Dasglu Tata. Nod Tasglu Tata yw cynorthwyo busnesau ac unigolion y gallai cyhoeddiad Tata ym mis Ionawr ynghylch colli swyddi effeithio arnynt. Mae'r Tasglu hefyd yn mynd i'r afael â'r effaith ar fusnesau eraill ac ar y gadwyn gyflenwi ehangach.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r Ffrydiau Gwaith Hyfforddiant a Sgiliau a Busnes a Chadwyn Gyflenwi yn cydweithio’n agos, a hefyd yn ategu gwaith y Ffrwd Gwaith Iechyd. Mae hyn oll yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i gymorth ar gyfer unigolion sy’n gweithio o fewn y gadwyn gyflenwi a chymorth ar gyfer holl weithwyr Tata. Mae Busnes Cymru wrthi’n cydweithio â chwmnïau cyflenwi allweddol Tata, a hynny fesul un, gan ddarparu cefnogaeth ehangach sy’n cynnwys hyfforddiant a chymorth â sgiliau fel y bo angen. Mae’r galw am gymorth gan y gadwyn gyflenwi wedi bod yn is na’r disgwyl. Efallai mai un o’r rhesymau am hyn yw’r ffaith bod cwmnïau’n cydnabod yr angen i arallgyfeirio a cheisio canfod cwsmeriaid newydd.

Byddaf yn cadeirio cyfarfod nesaf Tasglu Tata ar 4 Awst a byddaf yn cyflwyno’r newyddion diweddaraf i’r Aelodau ynghylch hynt y gwaith ar ôl y cyfarfod hwnnw.

Yn Gywir,

